



Mai 2022 Rhifyn



Tocyn Crwydro Gogledd Cymru

Tocyn trên a bws ar y cyd

Tocyn Crwydro Gogledd Cymru yw'r tocyn sy'n rhoi gwerth am arian ardderchog ac sy'n caniatau teithio ar fysiau a threnau o gwmpas Gogledd Cymru. Gallwch brynu'r tocynnau ar gyfer 2, neu 3 parth neu bob un! Mae 8 parth ac maent yn seiliedig yn bennaf ar ffiniau'r siroedd yn y rhanbarth. Mae siroedd Ynys Môn, Conwy, Dinbych a Fflint yn barthau unigol, ond mae Gwynedd wedi ei rhannu yn 2 barth unigol. Mae Wrecsam a Chaer yn un parth.

Mae parth hefyd sydd yn cynnwys y llwybrau rhwng Machynlleth ac Aberystwyth (Gogledd Ceredigion). Mae'r tocyn yn ddilys ar bob trên a'r rhan fwyaf o'r fysiau yn y parthau penodol. Caiff gwasanaethau ychwanegol penodol eu cynnwys fel y dangosir ar y map parth. Mae'r tocynnau'n ddilys drwy'r dydd tan 0429.

Lle gallaf brynu Tocyn crwydro Gogledd Cymru?

Mae tocynnau ar gael mewn gorsafoedd rheilffordd yn yr ardal (cyn belled â bod staff yn bresennol yno), tocynwyr trenau a gyrwyr fysiau o gwmnïau sy'n cymryd rhan yn y cynllun. Dim ond mewn gorsafoedd trên neu ar drenau y gallwch brynu tocyn pob parth. Wedi dweud hynny gellir defnyddio tocyn sengl sydd wedi ei brynu ar fws i deithio i'r orsaf drên agosaf fel rhan o'r taliad am docyn pob parth.

Lle gallaf ddefnyddio Tocyn Crwydro Gogledd Cymru?

Yn dibynnu ar y parthau sydd wedi eu prynu, mae'r tocyn yn ddilys ar bob tren a'r mwyafrif o fysiau sydd yn gwithredu o fewn siroedd Gogledd Cymru. Mae'r tocyn hefyd yn ddilys(os yw'r parth cywir wedi eu brynu) i/o Ganol Dinas Caer, Gorsaf Caer (dim yn ddilys ar y bws cysylltu a'r orsaf drenau),*Ellesmere Port, nid yw'r tocyn yn ddilys (trosglwyddadwy) i'w ddefnyddio ar wasanaethau bws sy'n gwasanaethu gorsafoedd Bidston, Upton, Heswall a Neston, * gwasanaethau bws 5 a 5 yn unig, Machynlleth, Whitchurch, Gobowen a Croesoswallt. Mae'r ticedi sy'n cynnwys parth X yn ddilys i'w ddefnyddio rhwng Machynlleth a Aberystwyth ar wasanaethau bws, X28, T2 a thren, hefyd mae tocynnau pob parth yn ddefnyddiol ar drenau rhwng Machynlleth a'r Trallwng, Amwythig a Gobowen, a gwasanaeth bws T12 rhwng Machynlleth, Y Trallwng a Chroesoswallt.



Gweithredwyr sy'n cymryd rhan

Y sefyllfa ar Mai 2022 (gall y cwmnïau bws newid o dro i dro).

Trên

Trafnidiaeth Cymru

Avanti West Coast

Mae gostyngiad o 20% ar brisiau cyffredin yn cael ei gynnig ar rwydwaith Rheilffordd Ffestiniog ac ar Reilffordd Eryri i ddeiliaid tocyn pob parth Tocyn Crwydro Gogledd Cymru.

Bws

Mae'r cwmnïau canlynol yn gwerthu a derbyn y tocyn.


Alpine Coaches	Denbighshire CC	O R Jones
Bysiau Arriva Cymru	Hutchinsons	Cerbydau Pats
Arriva Midlands	John's Blaenau	P&O Lloyd
Cerbydau Berwyn	K&P Coaches	R. Williams
Caelloi	Lewis y Llan	Stagecoach
Clynnog & Trefor	Llew Jones	Tanat Valley Coaches
Cerbydau Dilwyns	Cerbydau Lloyds	Townlynx
Cerbydau Eifions	Cerbydau M&H	Valentines
Cerbydau Goodsir	Cerbydau Nefyn	Wrexham & Prestige
Cerbydau Gwynfor	O Ddrws I Ddrws	

Cymaint o ddewis o lefydd i ymweld a nhw

Mae'r dewis o leodd i ymweld â nhw yng Ngogledd Cymru bron yn ddi-bendraw. Crwydrwch Barc Cenedlaethol Eryri, Mynyddoedd y Berwyn, gan gynnwys Bryniau Clwyd neu ardal wylt a mynyddig Pen Llyn. Ewch i wyllo adar ar Aber Mawddach. Gweld cestyll enfawr Dinbych, Conwy, Caernarfon, Harlech a Biwmares. Neu efallai y byddai'n well gennych chi ymweld â thref glan môr, os felly gellir ymweld â Phrestatyn, Rhyll, Llandudno, Pwllheli, Porthmadog, Abermaw, Borth neu Aberystwyth i enwi dim ond ychydig! Cerddwch furiau'r dref yng Nghaer neu Gonwy, neu dilynwch lwybr y dref o amgylch Dolgellau neu Llangollen. Neu dim ond mynd am daith i fwynhau'r golygfeydd! Yn bendant byddwch yn mwynhau teithio ar un o'r nifer o reilffyrdd stêm (mae gostyngiad o 20% ar brisiau cyffredin yn cael ei gynnig ar rwydwaith Rheilffordd Ffestiniog ac ar Reilffordd Eryri i ddeiliaid tocyn pob parth Tocyn Crwydro Gogledd Cymru).



Ardal Tocyn Crwydro Gogledd Cymru



Faint mae'n ei gostio? O'r 2ail o Ionawr 2022

	Oedolyn	Plentyn
2 Barth	£14.10	£7.00
3 Barth	£24.00	£12.00
Pob Barth	£38.00	£19.00

Gostyngiadau ar gael ar tocyn pob parth i rhai sydd a cerdyn Rheilffordd. Prisiau yn ddilys tan 1af o Ionawr 2023.

Parth

- A Ynys Môn
- C Conwy
- D Sir Ddinbych
- F Sir y Fflint
- G Gwynedd (ardaloedd Arfon a Dwyfor)
- M Gwynedd (ardal Meirionnydd)
- W Wrecsam a Chaer
- X Gogledd Ceredigion

Allwedd

- Prif wasanaethau bysiau
 - Prif wasanaethau TrawsCymru
 - Prif wasanaethau trenau
- (Sylwer bod gwasanaethau bysiau a threnau a ddangosir y tu allan i ffiniau'r parthau hefyd ar gael yn y parth cyfagos)
- Gwasanaethau rheilffordd a gynhwysir yn y tocyn Rover pob parth yn unig

